# ROBERTS, EDWARD ('Iorwerth Glan Aled '; 1819 - 1867), bardd a llenor

**Enw:** Edward Roberts
**Ffugenw:** Iorwerth Glan Aled
**Dyddiad geni:** 1819
**Dyddiad marw:** 1867
**Rhiant:** Peter Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd a llenor
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 5 Ionawr 1819 yn Llansannan, sir Ddinbych, mab Peter Roberts, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Bu'n brentis mewn siop yn Abergele cyn mynd i Goleg (Methodistiaid Calfinaidd) y Bala. Wedyn bu'n cadw busnes yn Rhuddlan. Symudodd oddi yno i Ddinbych, lle y dechreuodd bregethu gyda'r Bedyddwyr; ordeiniwyd ef (29 Medi 1842) yn weinidog ar yr eglwys honno yn Ninbych; bu wedyn yn gweinidogaethu yn Lerpwl ac yn Rhymni, sir Fynwy, ac ar ôl hynny'n cadw siop yn y Rhyl. Ysgrifennai'n fynych i gyfnodolion a newyddiaduron, a chyhoeddodd amryw lyfrau (llyfrynnau, gan mwyaf), megis: *Dyddanion, neu Hanesion Difyrus a Buddiol*, 1838; *Y Weithred o Fedyddio*, 1849; *Cerdd Allwyn, er Coffadwriaeth am E. Jones, 'Ieuan Gwynedd*,' 1853; *Palestina*, 1851; *Y Llenor Diwylliedig, sef Llawlyfr yr Ysgrifenydd, yr Areithydd, a'r Bardd*, 1862; *Mel-Ddyferion Barddonawl*, 1862; ceir manylion ychwanegol (a rhestr gyflawn o'i weithiau cyhoeddedig) yn y 'byr-gofiant o'r awdwr' (gan ei nai, Edward Jones, Pwllheli) yn *Gwaith Barddonol Iorwerth Glan Aled* (Liverpool, 1890). Bu'n briod ddwywaith. Bu farw yn y Rhyl, 18 Chwefror 1867, a chladdwyd ef yn Llansannan.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908), a'r ffynonellau a enwir yno

*NLW MSS* 2371, 8440, 13738

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Edward Roberts

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 78491554

Wikidata: Q18535897

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu